Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

# **Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru:** Blaenoriaethau ac argymhellion ar gyfer addysg nyrsio a dysgu gydol oes yng Nghymru



# Cydnabyddiaethau

Hoffai RCN Cymru ddiolch o galon i aelodau Bwrdd Cymru RCN a gyfrannodd eu harbenigedd, eu gwybodaeth, a'u trosolwg at ddatblygiad y gwaith hwn. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'n partneriaid ledled Cymru sydd wedi cynnig adborth adeiladol trwy gydol datblygiad y blaenoriaethau a'r argymhellion. Yn olaf, rydym yn mynegi ein gwerthfawrogiad i'n haelodau a roddodd yn hael o'u hamser i adolygu a chynnig sylwadau ar y ddogfen hon, gan helpu i gryfhau ei pherthnasedd a'i heffaith..

Dyluniwyd y ddogfen hon mewn cydweithrediad â'n haelodau i sicrhau ei bod yn bodloni'r mwyafrif o safonau hygyrchedd. Fodd bynnag, os nad yw'n bodloni eich gofynion, cysylltwch â corporate. **communications@rcn.org.uk**

**Ymwrthodiad Cyfreithiol RCN**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i helpu aelodau'r RCN. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio yn y DU ond hysbysir darllenwyr y gallai arferion amrywio ym mhob gwlad a'r tu allan i'r DU. Casglwyd yr wybodaeth yn y llyfryn hwn o ffynonellau proffesiynol, ond ni ellir sicrhau ei chywirdeb. Er bod pob ymdrech wedi cael ei gwneud i sicrhau bod yr RCN yn darparu gwybodaeth a chanllawiau cywir ac arbenigol, mae'n amhosibl rhagweld yr holl amgylchiadau y gellid eu defnyddio ynddynt. Yn unol â hynny, ni fydd RCN yn atebol i unrhyw unigolyn neu endid yng nghyswllt unrhyw golled neu ddifrod a achosir neu yr honnir a achoswyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr wybodaeth a'r canllawiau ar y wefan hon, neu sydd wedi'i hepgor ohonynt.

Cyhoeddwyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol, 20 Cavendish Square, Llundain W1G 0nyrs gofrestredig

**© 2026 Y Coleg Nyrsio Brenhinol. Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adfer, na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffordd neu drwy unrhyw fodd electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio neu fel arall, heb ganiatâd y Cyhoeddwyr ymlaen llaw. Ni cheir benthyca, ailwerthu, gosod na gwaredu mewn ffordd arall y cyhoeddiad hwn trwy fasnach mewn unrhyw ffurf o rwymiad neu glawr ac eithrio'r hyn y'i cyhoeddir ynddo, heb ganiatâd y Cyhoeddwyr ymlaen llaw.**

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol....... 4

Rhagair....... 5

Cyflwyniad....... 6

Cefndir....... 7

Ysgogiadau proffesiynol a natur nyrsio fel proffesiwn lle mae diogelwch yn hanfodol....... 11

Crynodeb....... 15

Blaenoriaethau ac argymhellion....... 16

Casgliad....... 24

Rhestr cyfeiriadau....... 25

# Crynodeb gweithredol



> Mae addysg yn ysgogwr o allu gweithlu, cynaliadwyedd, boddhad proffesiynol a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r gweithlu nyrsio yng Nghymru yn ganolog i ddarparu gofal diogel, tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol cynyddol gymhleth. Wrth i wasanaethau barhau i esblygu ac i bwysau ar y gweithlu ddwysau, mae'n rhaid i addysg baratoi'r gweithlu nyrsio i ymarfer tra hefyd yn datblygu gwydnwch, galluogi ymchwil, a chefnogi'r gweithlu nyrsio i arwain newid. Mae'r ddogfen hon yn diweddaru ac yn olynu Strategaeth Addysg RCN Cymru (2016), gan gyflwyno blaenoriaethau ac argymhellion eglur sy'n lleoli addysg fel ysgogwr o allu'r gweithlu, cynaliadwyedd, boddhad proffesiynol a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol cynyddol gymhleth. Mae cryfhau dysgu proffesiynol ac ymarfer myfyriol yn hanfodol i ddatblygu proffesiwn hyderus a ysgogir gan werthoedd. Mae'n rhaid ymwreiddio ail-ddilysu, goruchwyliaeth glinigol adferol, mentora, a hyfforddi trwy systemau sefydliadol i sicrhau amser neilltuedig, hwyluso medrus, a diwylliannau cefnogol. Mae'r dulliau hyn yn helpu nyrsys i ddysgu o brofiad, i gynnal llesiant emosiynol, ac i ddarparu gofal o ansawdd uchel hyd yn oed mewn amgylcheddau anodd.

Mae'n rhaid i addysg hefyd feithrin gweithlu wedi'i hysbysu gan ymchwil. Bydd buddsoddi mewn rhuglder digidol a data, partneriaethau academaidd clinigol, a swyddi lefel uwch ac ymgynghorol yn galluogi nyrsys i gynhyrchu a chyfieithu tystiolaeth, i ysgogi gwelliant, ac i gyfrannu at ofal sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth. Mae angen cysondeb cryfach rhwng addysg, ymchwil, ac ymarfer i sicrhau bod gwybodaeth newydd yn cael ei droi'n ofal o ansawdd uchel yn gyflym.

Yn olaf, mae Cymru angen gweithlu hyblyg, gwybodus a gwydn wedi'i adeiladu drwy addysg sy'n adlewyrchu anghenion gwasanaeth gwirioneddol. Mae llwybrau gyrfaol eglur, datblygiad arweinyddiaeth tosturiol a chynhwysol, a chynllunio gweithlu a chomisiynu cydgysylltiedig yn hanfodol i gynorthwyo nyrsys i addasu, i ffynnu, ac i wneud cynnydd ar draws lleoliadau amrywiol.

Gyda'i gilydd, mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnig dull cydlynol i bartneriaid ar draws y system sicrhau bod addysg yn cefnogi gweithlu nyrsio hyderus, gwydn, sy'n barod ar gyfer y dyfodol ac yn gallu diwallu anghenion esblygol pobl Cymru.

# Rhagair

Mae swyddogaeth y nyrs gofrestredig a gweithwyr cymorth nyrsio yn parhau i ddatblygu i ddiwallu anghenion newidiol cleifion, eu teuluoedd a gofalwyr mewn tirwedd iechyd a gofal cymdeithasol sy'n esblygu. I ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion hyn, mae angen gweithlu hynod fedrus, brwdfrydig ac ymgysylltiol arnom, sy'n gwneud ymdrech gyson i wella gofal cleifion. Darperir addysg ym maes nyrsio mewn amrywiaeth o ffyrdd yng Nghymru, pa un a yw'n addysg ar gyfer y rhai sy'n newydd i ofal, addysg nyrsio cyn cofrestru neu gymwysterau ôl-raddedig; mae addysg nyrsio yn daith sy'n para trwy yrfa gyfan. Mae mynediad at addysg o ansawdd uchel a chyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes yn hanfodol i sicrhau gweithlu nyrsio sydd wedi'i hysbysu gan ymchwil ac yn hynod fedrus i ddarparu gofal nyrsio diogel ac effeithiol.

Gweledigaeth RCN Cymru yw sicrhau bod pob gweithiwr cymorth nyrsio yng Nghymru wedi'i arfogi â'r wybodaeth, y sgiliau, a'r hyder i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn tirwedd iechyd a gofal cymdeithasol newidiol, drwy addysg sy'n gynhwysol yn seiliedig ar dystiolaeth, yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi'i seilio ar werthoedd proffesiynol. Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar Strategaeth Addysg flaenorol RCN Cymru (2016) ac yn ei holynu, gan adlewyrchu ein safbwynt, ein blaenoriaethau a'n hargymhellion ar gyfer dyfodol addysg a dysgu gydol oes ar gyfer nyrsio yng Nghymru. Bwriedir iddi hysbysu, dylanwadu a chefnogi proses gwneud penderfyniadau strategol partneriaid allweddol ar draws Llywodraeth Cymru, addysg, gweithlu ac ymarfer, yn ogystal â grymuso aelodau RCN Cymru i ddylanwadu ar benderfyniadau addysg a gweithlu yn eu sefydliadau eu hunain.



**Jackie Davies**
Cadeirydd Bwrdd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru



**Helen Whyley**
Cyfarwyddwr Gweithredol, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

# Cyflwyniad

Gan adeiladu ar y weledigaeth a gyflwynir yn y Rhagair, mae'r ddogfen hon yn amlinellu safbwynt Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru ar ddyfodol addysg a dysgu gydol oes nyrsio ledled Cymru. Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth nyrsio ar draws bob sector, gan hyrwyddo rhagoriaeth wrth ymarfer a dylanwadu ar bolisi iechyd a gofal cymdeithasol. Fel y nodir yn ei Siarter Brenhinol, mae diben craidd yr RCN yn cynnwys hybu gwyddor a chelfyddyd nyrsio a hyrwyddo addysg a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel ar draws pob maes ymarfer.

Mae bwriad y ddogfen hon yn ddeublyg; yn gyntaf, i hysbysu, dylanwadu, a chefnogi prosesau gwneud penderfyniadau strategol ar draws Llywodraeth Cymru, maes addysg, gweithlu, ac ymarfer ac yn ail i rymuso aelodau RCN Cymru i ddylanwadu ar benderfyniadau addysg a gweithlu o fewn eu sefydliadau eu hunain. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru yn derbyn yr ansawdd uchaf o ofal nyrsio ar draws pob gwasanaeth a lleoliad. Mae gwireddu'r dyhead hwn yn gofyn am weithlu addysgedig, sy'n ddigidol ystwyth, yn wydn, ac yn hyblyg â mynediad at addysg a datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel. Bydd hyn yn galluogi nyrsys i ddarparu gofal diogel, tosturiol, a seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau a chanlyniadau cleifion.

Yn ogystal â'i ymrwymiad i'r cyhoedd, mae gan RCN Cymru ran allweddol i'w chwarae o ran cefnogi swyddi nyrsio i gael mynediad at addysg a dysgu gydol oes angenrheidiol yn rhan o'i waith parhaus i gefnogi a gwerthfawrogi'r proffesiwn. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u meithrin pan fyddant yn cael eu cefnogi yn emosiynol ac yn broffesiynol, sydd wedyn yn galluogi iddynt ffynnu a darparu gofal diogel, effeithiol, a thosturiol (West et al., 2020).

> Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u meithrin pan fyddant yn cael eu cefnogi yn emosiynol ac yn broffesiynol



# Cefndir

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar Strategaeth Addysg RCN Cymru (2016) ac yn ei hailosod, gan ei diweddaru ar gyfer y dirwedd polisi a gweithlu gyfoes. Gydag arweinyddiaeth a mewnbwn gan ein Haelodau Bwrdd RCN Cymru, mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r cyd-destun a'r dirwedd polisi newidiol y mae nyrsio ac addysg nyrsio yn gweithredu ynddynt. Mae'r blaenoriaethau a'r argymhellion wedi cael eu cyflwyno ar sail gyfoes fel bod ein safbwynt yn dal i fod yn fyw â phwyslais ar y dyfodol. I hysbysu'r gwaith hwn, mae aelodau'r bwrdd wedi archwilio cydadwaith cymhleth o ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasegol, technolegol, cyfreithiol, ac amgylcheddol (PESTLE) a amlinellir isod.

Mae ffactorau gwleidyddol yn cwmpasu'r dirwedd bolisi esblygol yng Nghymru ac yn y DU ehangach, a'r ffyrdd y gall RCN Cymru ddylanwadu ar y blaenoriaethau nyrsio ac addysg nyrsio. Mae ymrwymiad gwleidyddol parhaus i recriwtio, datblygu a chadw'r gweithlu nyrsio yn hollbwysig, ac felly hefyd dylanwad grwpiau trawsbleidiol ac adolygiadau fel Ymgynghoriad Bwrsariaeth GIG Cymru. Mae polisïau llywodraeth datganoledig, gan gynnwys ymrwymiadau penodol i gomisiynu a chynllunio'r gweithlu yn cael effaith sylweddol hefyd.

Mae pwysau economaidd yn ddifrifol ac yn eang. Mae cyfyngiadau ariannol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, ac addysg uwch wedi cael eu gwaethygu gan yr argyfwng costau byw a heriau ariannu cysylltiedig â Brexit sy'n parhau i effeithio ar gynaliadwyedd addysg nyrsio. Mae amrywioldeb o ran tâl, amodau, a chomisiynu ar draws sectorau yn cymhlethu cyfleoedd cynllunio a chynnydd y gweithlu ymhellach, yn enwedig mewn sectorau sydd wedi'u tangynrychioli neu annibynnol, fel lleoliadau iechyd meddwl, anabledd dysgu a gofal cymdeithasol.

Mae ffactorau cymdeithasegol yn adlewyrchu cymdeithas amrywiol sy'n newid ac yn gynyddol amrywiol. Mae angen sylw wedi'i dargedu ar anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau a'u darpariaeth, yn enwedig ym meysydd iechyd meddwl ac anableddau dysgu, yn ogystal â materion yn ymwneud â chymhwysedd diwylliannol, hiliaeth a gwahaniaethu. Mae ystyriaethau penodol i Gymru, gan gynnwys iaith, hunaniaeth, a chynlluniau gweithredu yn mynd i'r afael a chydraddoldeb LHDTC+ a hiliol, yn pwysleisio'r angen am ddull cynhwysol o ymdrin ag addysg. Mae pwysau gofal cymdeithasol a phoblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn amlygu'r angen am ddulliau ymatebol ac ymaddasol o ymdrin ag addysg nyrsio.

Mae gan ddatblygiadau technolegol y potensial i drawsnewid addysg nyrsio'n sylweddol yn ogystal â'r ddarpariaeth o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae digidoleiddio cynyddol, deallusrwydd artiffisial, ac offerynnau digidol sy'n dod i'r amlwg yn cynnig cyfleoedd newydd i wella dysgu, i symleiddio prosesau clinigol, ac i gefnogi gofal sydd wedi'i bersonoli mwy ac wedi'i hysbysu gan ddata. Wrth i dechnoleg esblygu, felly hefyd y mae'r disgwyliad y gall nyrsys a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach ddefnyddio systemau digidol yn effeithiol, dehongli data, ac ymgysylltu ag offerynnau â deallusrwydd artiffisial wedi'i alluogi. Mae hyn yn neilltuo pwysigrwydd cynyddol i ddatblygu rhuglder digidol gwell ar draws gweithlu amrywiol a rhyng-genhedlaeth, gan sicrhau bod pob aelod o staff yn teimlo wedi'i baratoi, ei gefnogi, a'i rymuso i ddefnyddio technoleg i'w photensial llawn.



> Mae ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasegol, technolegol, cyfreithiol, ac amgylcheddol yn llunio addysg nyrsio.

Mae ffactorau cyfreithiol a rheoleiddio yn parhau i esblygu, gan lunio strwythur a gofynion addysg nyrsio. Mae deddfwriaeth allweddol, fel Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn pennu disgwyliadau eglur i'r gweithlu. Amlygodd gofynion rheoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) a newidiadau arfaethedig i'r Cod (NMC, 2018b) ac ail-ddilysu, yn ogystal â dyfodiad *Egwyddorion ar gyfer Ymarfer Uwch* (NMC, 2025) yr angen i addysgu barhau i fod yn gyfredol a chydsyniol.

Mae ffactorau amgylcheddol yn cyflwyno cymhlethdod ychwanegol. Mae gwahaniaethau daearyddol ledled Cymru yn effeithio ar recriwtio a chadw, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac sydd wedi'u tanwasanaethu. Mae polisïau cynaliadwyedd amgylcheddol a gwyrdd yn dod yn gynyddol berthnasol, ac felly hefyd yr angen i gysoni lleoliadau addysgol â nodau cynaliadwyedd ehangach y GIG a llywodraethol.

O'i hystyried gyda'i gilydd, mae'r ffactorau PESTLE hyn yn atgyfnerthu'r angen am ddull dynamig, cynhwysol, a chynaliadwy sy'n cefnogi'r gweithlu nyrsio ar draws pob sector yng Nghymru.

## Cyd-destun strategol ar gyfer addysg nyrsio yng Nghymru

Mae addysg nyrsio yng Nghymru yn cael ei lunio gan dirwedd polisi esblygol lle ceir cymhlethdod gwasanaeth cynyddol, anghenion poblogaeth sy'n newid, a disgwyliadau cynyddol o ofal digidol ac wedi'i hysbysu gan dystiolaeth. Er bod gwerthoedd craidd nyrsio, tosturi, proffesiynoldeb, ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn dal i fod yn gyson, mae lled a dyfnder cyfrifoldebau nyrsio wedi ehangu yn sylweddol. Mae nyrsys yn darparu ymyriadau mwy cymhleth, gan weithio ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol, a llywio newid technolegol cyflym. Mae'r cyd-destun hwn yn gofyn am weithlu sy'n hyblyg, yn ddigidol rugl, ac sy'n cael ei gefnogi trwy addysg gyrfa gyfan o ansawdd uchel.

## Ysgogiadau gwleidyddol a lefel system

Mae cyfres o strategaethau cenedlaethol yn parhau i ddiffinio cyfeiriad Cymru ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaeth *Cymru Iachach: Strategaeth ein Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* (AaGIC, 2020) bennu'r disgwyliad o weithlu medrus, hyblyg wedi'i gefnogi drwy gydol eu gyrfaoedd, gan amlygu pwysigrwydd dysgu rhyng-broffesiwn ac arloesi digidol ym maes addysg nyrsio. Yn yr un modd, mae *Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* (Llywodraeth Cymru, 2021a) yn gosod atal, gwasanaethau cymunedol, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel blaenoriaethau, gan ofyn am gwricwla sy'n paratoi nyrsys ar gyfer ymarfer cyfannol sy' canolbwyntio ar y boblogaeth.

Mae pwysau cadw hefyd yn dylanwadu ar y dirwedd addysgol. Mae *Cadw a Gwerthfawrogi Nyrsys o fewn y GIG yng Nghymru* (AaGIC, 2023b) yn pwysleisio swyddogaeth amgylcheddau dysgu cefnogol, mentoriaeth, a datblygiad ôl-raddedig i wella boddhad a hyd gyrfaoedd. Mae anghenion ehangu'r gweithlu wedi'u nodi yn y *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu* (Llywodraeth Cymru, 2023), sy'n galw am fwy o gapasiti, modelau addysg arloesol, a chynllunio wedi'i hysbysu gan ddata i sefydlogi cyflenwad y gweithlu. Hefyd, mae *Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu* (Llywodraeth Cymru, 2021b) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg gael gwared ar rwystrau, meithrin amgylcheddau cynhwysol, a sicrhau bod recriwtio a hyfforddiant yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru.

Mae'r *Cynllun Cyflawni Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024–2027* (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2024) yn gosod addysg fel ysgogiad system craidd, gan amlygu addysg a dysgu rhagorol fel maes gweithredu canolog. Mae'n pwysleisio'r angen i gryfhau llwybrau dysgu, i wella mynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel, ac i sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau sydd eu hangen i fodloni galw cynyddol ac addasu i fodelau newidiol o ofal. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod yr angen am weithlu sy'n barod yn ddigidol, gan gysylltu addysg â gallu digidol, ac yn pwysleisio datblygiad arweinyddiaeth fel elfen hanfodol o ddysgu'r gweithlu.

Yn fwy diweddar, mae'r *Breceptoriaeth Nyrsio a Goruchwyliaeth Glinigol Adferol: Datganiad Sefyllfa* (Llywodraeth Cymru, 2024a) yn sefydlu dull cenedlaethol cyson ar gyfer preceptoriaeth a goruchwyliaeth adferol, gan atgyfnerthu'r angen i lesiant emosiynol ac ymarfer myfyriol gael eu hymgorffori yn yr ecosystem addysgol o'r cychwyn. Nid yw'r gofynion hyn yn ymylol, y rhan yw'r seilwaith hanfodol ar gyfer gweithlu nyrsio cynaliadwy.

Mae pwysau poblogaeth a gweithlu gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, cydafiachedd cynyddol, a phrinder nyrsys, yn pwysleisio brys y Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol (AaGIC, 2025). Mae'n galw am well recriwtio, cadw, a thrawsnewid swyddi nyrsio, gan gyd-fynd yn agos â phwyslais RCN Cymru ar gryfhau gallu'r gweithlu drwy addysg.

Yn fwy diweddar, mae cyhoeddi'r *Weledigaeth Strategol ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru 2025-2030* (Llywodraeth Cymru, 2025b) yn gosod addysg fel yr ysgogiad allweddol o ragoriaeth broffesiynol, gan amlygu'r angen am ddysgu gydol oes, lwybrau gyrfaol wedi'u cryfhau, a'r defnydd o dystiolaeth, data, a gwyddor weithredu i gefnogi datblygiad parhaus. Mae'n pwysleisio bod ymarferwyr medrus wedi'u grymuso yn hanfodol i arwain newid, ysgogi arloesedd, a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ansawdd uchel ar draws system iechyd a gofal Cymru.

Hefyd, mae'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Meithrin Gallu Ymchwil (Llywodraeth Cymru, 2025a) yn gosod ymchwil fel elfen graidd i bob swyddogaeth broffesiynol ac yn mynnu ar seilwaith ac arweinyddiaeth bwrpasol i feithrin ymchwilwyr nyrsio. Fodd bynnag, heb gysondeb a buddsoddiad addysgol cryf, mae'r weledigaeth hon mewn perygl o fod yn ymgyrhaeddol yn hytrach na thrawsnewidiol.

Gyda'i gilydd, mae'r disgwyliadau gwleidyddol a lefel system hyn yn ei gwneud yn ofynnol i addysg nyrsio yng Nghymru fod yn hyblyg, i ganolbwyntio ar y dyfodol, i fod yn soffistigedig yn ddigidol, ac wedi'i gysylltu'n agos ag anghenion poblogaeth a gwasanaeth.

## Cyd-destun addysg uwch

Mae'r dirwedd addysg uwch yng Nghymru yn dioddef pwysau sylweddol, â goblygiadau i gynaliadwyedd ac ansawdd addysg nyrsio. Ledled y DU, mae ceisiadau i raglenni nyrsio israddedig wedi gostwng ers y pandemig. Er bod yn rhaid i brifysgolion barhau i fynd ar drywydd eu cenadaethau academaidd, gan gynnwys rhagoriaeth ymchwil a chystadleurwydd byd-eang, mae ganddynt gyfrifoldebau dinesig hanfodol hefyd, gan chwarae rhan hollbwysig o ran datblygu a chynnal gweithlu nyrsio'r dyfodol ledled Cymru.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae parhau i gomisiynu addysg nyrsio raddedig yn dal i fod yn hanfodol i iechyd a llesiant cymunedau ledled Cymru. Mae sefydliadau addysg uwch angen digon o arbenigedd seilwaith, a chyrhaeddiad daearyddol i sicrhau mynediad teg at raglenni sy'n adlewyrchu poblogaeth amrywiol a gofynion gwasanaeth Cymru. Gan fod nyrsio yn broffesiwn gydol oes, mae mynediad at addysg ôl-raddedig o ansawdd uchel yr un mor hanfodol. Mae'n rhaid felly i ddatblygu'r ecosystem ôl-gofrestru gan gynnwys llwybrau estynedig, uwch, a lefel ymgynghorol fod yn flaenoriaeth strategol i ddarparwyr addysg ac i bartneriaid system (AaGIC, 2025; AaGIC, 2023a). Yn hollbwysig, mae'n rhaid i'r ddarpariaeth hon barhau i fod yn ymatebol o'r meysydd a'r cyd-destunau nyrsio amrywiol y mae nyrsys yn ymarfer ynddynt, gan gwmpasu lleoliadau acíwt, cymunedol, iechyd meddwl, anabledd dysgu, ac arbenigol eraill.

Mae ymchwil nyrsio yng Nghymru wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol am ei hansawdd, ei pherthnasedd, a'i heffaith (Llywodraeth Cymru, 2025a). Mae academyddion nyrsio sy'n weithredol o ran ymchwil yn creu amgylcheddau dysgu dynamig lle mae addysgu, ymchwil, ac arloesi yn croestorri, gan wella profiad y myfyriwr ac ymarfer clinigol. Felly, mae angen safbwynt system gyfan i gynnal ansawdd a pherthnasedd addysg. Mae hyn yn cynnwys cryfhau dysgu rhyng-broffesiwn, sicrhau cynnydd cydlynol o lwybrau israddedig i ôl-raddedig, a chysoni cyfleoedd dysgu ymarfer ag anghenion iechyd y boblogaeth. Mae erydiad y gweithlu academaidd yn bygwth y cysoni hwn trwy gyfyngu arloesedd, culhau lled y cwricwlwm, a chyfyngu cyfleoedd myfyrwyr i ddysgu mewn amgylcheddau sy'n weithredol o ran ymchwil.

# Ysgogiadau proffesiynol a natur nyrsio fel proffesiwn lle mae diogelwch yn hanfodol

## Diffinio nyrsio

Mae'r RCN (2021) yn diffinio nyrsio fel proffesiwn lle mae diogelwch yn hanfodol wedi'i seilio ar bedair colofn: ymarfer clinigol, addysg, ymchwil, ac arweinyddiaeth. Mae nyrsys cofrestredig yn defnyddio gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth a chrebwyll proffesiynol a chlinigol i asesu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal nyrsio o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r diffiniad cyfoes hwn yn dangos y newid a'r cymhlethdod cynyddol a welwyd yn y proffesiwn nyrsio dros y ddau ddegawd diwethaf. I gefnogi hyn ymhellach, mae'r RCN (2024a) wedi amlinellu'r lefelau o ymarfer nyrsio estynedig, uwch, ac ymgynghorol, wedi'u cysoni â *Safonau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol* (2018b) a *Fframwaith Proffesiynol AaGIC* (2023a). Mae'r llwybrau hyn yn cefnogi cynnydd gyrfaol ac yn sicrhau bod nyrsys yn cael eu paratoi i arwain ac arloesi ar draws bob maes ymarfer, yn seiliedig ar fframweithiau addysgol.

## Proffesiwn wedi'i adeiladu ar arbenigedd a thystiolaeth

Nyrsio yw'r proffesiwn mwyaf lle mae diogelwch yn hanfodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae nyrsys cofrestredig yn defnyddio gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth a chrebwyll clinigol i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys cyfraniad hollbwysig y gweithlu cymorth nyrsio, sy'n gweithio o dan oruchwyliaeth briodol. Mae strategaeth pum mlynedd RCN (2023a) yn cyflwyno gweledigaeth feiddgar ar gyfer y proffesiwn, un sy'n gwerthfawrogi, yn cefnogi, ac yn grymuso nyrsys i ddarparu rhagoriaeth mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol sy'n newid yn gyflym. Yn ogystal â hyn, mae Strategaeth Ymchwil RCN (2025c) yn pwysleisio'r angen i ymchwil gynhyrchu, cyfieithu a gweithredu tystiolaeth sy'n cryfhau ymarfer a chanlyniadau nyrsio.



Nyrsio yw'r proffesiwn mwyaf lle mae diogelwch yn hanfodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Ceir corff sylweddol sy'n tyfu o dystiolaeth sy'n dangos bod lefelau staff nyrsys cofrestredig yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau cleifion a nyrsys. Cysylltwyd staffio annigonol â pheryglon uwch o niwed i gleifion, gan gynnwys cymhlethdodau y gellid eu hatal a marwolaethau yn yr ysbyty, ac mae effeithiau ar staff yn cynnwys diffygiad, anafiadau galwedigaethol, a llai o foddhad yn y swydd (Dall'Ora et al., 2022; RCN, 2025d). Hefyd, mae safbwynt RCN ar ddisodli swyddi (RCN, 2025b) yn amlygu'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwanhau gofal nyrsio, a all arwain wedyn at ddiffyg o ran gofal, ansawdd a diogelwch. O'r herwydd, mae'n rhaid gwneud gwaith ymchwil parhaus i hysbysu trothwyon diogel, modelau goruchwyliaeth, effeithiau cymysgedd sgiliau a chanlyniadau cleifion; i alluogi hyn, mae'n rhaid cynorthwyo nyrsys i arwain y gwaith o gynhyrchu tystiolaeth (RCN, 2025c).

## Safbwyntiau a blaenoriaethau byd-eang

Mae *adroddiad Nyrsio Cyflwr y Byd* (Sefydliad Iechyd y Byd, 2025) yn galw i addysg nyrsio gael ei chryfhau ac mae'n nodi hyn fel elfen hollbwysig o systemau iechyd byd-eang. Mae'n pwysleisio'r ffaith fod ansawdd a hygyrchedd addysg nyrsio yn dylanwadu yn uniongyrchol ar effeithiolrwydd, tegwch, a gwydnwch y ddarpariaeth o ofal iechyd yn fyd-eang.

Mae'r adroddiad yn amlygu'r angen i wledydd fuddsoddi mewn ehangu capasiti addysg nyrsio, gan gynnwys cynyddu maint y gweithlu academaidd, gwella seilwaith, a sicrhau bod amgylcheddau hyfforddi clinigol yn gadarn ac yn meddu ar adnoddau digonol. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cysoni addysg nyrsio ag anghenion system iechyd esblygol, yn enwedig drwy integreiddio cymwyseddau sy'n gysylltiedig â gofal sylfaenol, iechyd y cyhoedd, a thechnolegau iechyd digidol. Hefyd, mae'r adroddiad yn eirioli dros ddatblygu llwybrau israddedig sy'n galluogi nyrsys i gyflawni swyddogaethau wedi'u hehangu, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n cael eu tanwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig datblygu arbenigedd clinigol ond hefyd arweinyddiaeth, polisi, a sgiliau ymchwil.

## Gweithwyr cymorth nyrsio

Mae'r RCN wedi diffinio gwaith cymorth nyrsio, gan wahaniaethu rhwng swyddogaethau cefnogol a chynorthwyol. Aelodau cydweithredol o dimau nyrsio ac amlddisgyblaeth yw gweithwyr cymorth nyrsio, sy'n darparu gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Er eu bod yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain, mae'r holl ofal nyrsio y maent yn ei ddarparu yn cael ei ddirprwyo a'i oruchwylio gan nyrsys cofrestredig. Mae eu swyddogaeth yn cefnogi ac yn cynorthwyo nyrsys cofrestredig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i unigolion a phoblogaethau (RCN, 2025a).

Mae bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cymdeithion nyrsio cofrestredig i Gymru yn ddatblygiad sylweddol yn y dirwedd gweithlu nyrsio (Llywodraeth Cymru, 2024b). Er bod RCN Cymru yn cydnabod cyfraniad posibl y swydd hon, mae ei hintegreiddiad llwyddiannus yn dibynnu ar ddull strategol cadarn sy'n diogelu uniondeb a diogelwch nyrsio cofrestredig. Mae'n rhaid i gymdeithion nyrsio cofrestredig gefnogi ac ategu nyrsys cofrestredig, nid eu disodli. Mae paramedrau ymarfer eglur y gellir eu gorfodi, llywodraethu cryf a strwythurau goruchwylio trwyadl yn hanfodol i sicrhau bod y gwahaniaeth hwn yn cael ei gynnal.

Hefyd, mae datblygu fframwaith addysgol priodol yn hollbwysig. Mae'n rhaid i unrhyw raglen cymdeithion nyrsio cofrestredig gael ei dylunio i gryfhau'r gweithlu nyrsio ehangach yn hytrach nag arallgyfeirio neu wanhau llwybrau i hyfforddiant nyrsio

cofrestredig. Mae'n rhaid i'r swydd fodoli o fewn strwythur gyrfaol eglur sy'n galluogi unigolion i symud ymlaen i addysg nyrsio cofrestredig, yn hytrach na gweithredu fel llwybr amgen sy'n tanseilio'r cyflenwad o nyrsys cofrestredig.

## Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Ers ei chyflwyno, mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 wedi cael effaith gadarnhaol ar ymarfer nyrsio a gofal cleifion. Increased nurse staffing has directly contributed to improved safety and outcomes. Mae'r Ddeddf wedi ymwreiddio diogelwch cleifion fel cyfrifoldeb a rennir ac wedi amlygu pwysigrwydd cynllunio gweithlu cynaliadwy. Mae hefyd wedi gwella gwaith casglu a monitro data, gan gefnogi proses gwneud penderfyniadau fwy cytbwys.

Fodd bynnag, mae adroddiad *Cynnydd a Her* RCN Cymru (2023c) yn nodi anawsterau parhaus o ran rhoi'r Ddeddf ar waith oherwydd pwysau gweithlu. Mae hwn yn pwysleisio bod yn rhaid i swyddi newydd, fel cymdeithion nyrsio cofrestredig, beidio â lleihau nifer y nyrsys cofrestredig ar shifftiau ac adlewyrchu symudiad tuag at swyddi cyffredinol nad ydynt yn adlewyrchu natur unigryw  pedwar maes nyrsio. Mae buddsoddiad parhaus mewn staffio yn hanfodol i gynnal egwyddorion y Ddeddf a sicrhau gofal diogel ac effeithiol, hyn yn oed yn wyneb cyfyngiadau ariannol.

> Mae lefelau staff nyrsio cofrestredig yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau cleifion

## Grymuso nyrsys ar gyfer yr oes ddigidol

Mae trawsnewid digidol yn ail-lunio'r ddarpariaeth o ofal iechyd, ac mae'n rhaid i nyrsio fod ar flaen yr esblygiad hwn. Mae mynediad at ddata cywir, prydlon, a rhyng-weithredadwy yn hanfodol ar gyfer darparu gofal diogel, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, mae llawer o leoliadau gofal iechyd yn parhau i ddibynnu ar systemau digidol tameidiog neu gofnodion ar bapur, a all beryglu diogelwch, parhad, ac ansawdd gofal. I fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'n rhaid i addysg nyrsio ymwreiddio rhuglder digidol ar draws bob lefel o ddysgu, o'r cyfnod cyn cofrestru i ymarfer uwch (y Cyngor Deoniaid, 2026).

Mae'n rhaid paratoi nyrsys i ddeall sut mae data yn hysbysu penderfyniadau clinigol, yn cefnogi ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gwella canlyniadau cleifion. Ni ddylid addysg gwybodeg ar wahân ond ei integreiddio trwy gwricwla cyfan mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylcheddol clinigol byd go iawn ac yn galluogi dulliau wedi'u hysgogi gan ddata. Mae hyn yn cynnwys profiad ymarferol gydag offerynnau a systemau digidol, arfarnu data yn feirniadol, a deall goblygiadau moesegol a chyfreithiol gofal digidol.

Mae technolegau sy'n dod i'r amlwg fel deallusrwydd artiffisial a thechnolegau ategol (ysgrifennydd deallusrwydd artiffisial) yn dechrau ehangu ymarfer nyrsio (Ruksakulpiwat et al., 2024). Mae gan yr arloesiadau hyn y potensial i leihau baich gweinyddol, sicrhau bod tasgau'n cael eu hailadrodd cyn lleied â phosibl, a symleiddio dogfennau, gan alluogi nyrsys i dreulio mwy o amser yn darparu gofal tosturiol o ansawdd uchel. I harneisio'r manteision hyn, mae'n rhaid i nyrsys gael eu grymuso gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio technolegau digidol yn effeithiol. Yn bwysicaf oll, mae'n rhaid iddynt fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y gwaith o lunio dyluniad a gweithrediad atebion digidol. Mae eu safbwyntiau yn hollbwysig i sicrhau bod technolegau yn cyd-fynd â realiti ymarfer nyrsio a wir yn cefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar y claf (Rony et al., 2024).



“Mae’n rhaid i addysg nyrsio ymwreiddio rhuglder digidol ar draws bob lefel

Mae hyn yn gofyn am bwyslais cryf ar arweinyddiaeth nyrsio o ran trawsnewid digidol. Mae’n rhaid i ddarparwyr addysg feithrin galluoedd arweinyddiaeth sy’n galluogi nyrsys i ddylanwadu ar bolisi digidol, cydweithredu â datblygwyr, ac eirioli dros systemau sy’n gwella’r ddarpariaeth o ofal. Trwy ymwreiddio cymwyseddau digidol, meithrin arloesedd, a hyrwyddo dylunio dan arweiniad nyrsys, gallwn sicrhau bod y gweithlu nyrsio yn barod i arwain mewn tirwedd gofal iechyd sy’n esblygu’n gyflym.

## Y Gymraeg a gallu gweithlu dwyieithog

Mae iaith yn sylfaenol i ofal urddasol, diogel sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. I bobl sy’n siarad Cymraeg, nid yw derbyn gofal yn eu dewis o iaith yn fater syml o ddewis ond yn elfen hanfodol o gyfathrebu effeithiol a diogelwch clinigol. Mae tystiolaeth yn dangos bod angen ieithyddol yn dylanwadu’n uniongyrchol ar ddealltwriaeth, ymddiriedaeth, a chanlyniadau, yn enwedig i bobl sy’n derbyn gofal iechyd meddwl, anabledd dysgu, a diwedd oes (Edwards et al., 2025).

Mae’n rhaid felly i addysg nyrsio ymwreiddio egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol, fel yr amlinellir yn *Mwy na Geiriau* (Llywodraeth Cymru, 2022), gan sicrhau bod defnydd o’r Gymraeg yn cael ei gefnogi’n rhagweithiol yn hytrach nag yn dibynnu ar unigolion yn gofyn amdano. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg integreiddio dysgu’r Gymraeg mewn cwricwla, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ieithyddol a’u defnyddio’n hyderus mewn amgylcheddau ymarfer.

Mae diwallu anghenion dwyieithog Cymru hefyd yn gofyn am gynllunio ar lefel system. Mae’n rhaid i waith comisiynu gweithlu a dyluniad lleoliadau dysgu ymarfer adlewyrchu demograffeg ieithyddol leol a chenedlaethol, gan sicrhau y gall gwasanaethau ddarparu’r Cynnig Rhagweithiol yn gyson a datblygu gallu ieithyddol ar draws y gweithlu nyrsio. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo myfyrwyr a staff i ddatblygu hyder yn y Gymraeg ar bob lefel ac ehangu cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn amgylchedd academaidd ac ymarfer.

# Crynodeb

Mae nyrsio yn broffesiwn dynamig, seiliedig ar dystiolaeth, lle mae diogelwch yn hanfodol, sy'n ganolog i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Addysg yw'r sylfaen y mae trawsnewid gwasanaethau yn dibynnu arni. Mae dull strategol, cynhwysol, a blaengar o ymdrin ag addysg nyrsio yn hanfodol felly i sicrhau bod nyrsys yn barod i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol, i arwain arloesedd, ac i ddarparu'r safonau uchaf o ofal ar draws bob lleoliad. Trwy fuddsoddi mewn addysg, rydym yn buddsoddi yn nyfodol nyrsio ac yn iechyd a llesiant pobl Cymru.

Mae dyfodol nyrsio yng Nghymru yn dibynnu ar weithlu sy'n fedrus, yn hyblyg, ac yn wydn, sy'n gallu darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws systemau cymhleth ac esblygol. Mae addysg yn ganolog i gyflawni hyn. Mae'n paratoi nyrsys gyda'r wybodaeth, y sgiliau, a'r gwerthoedd sydd eu hangen i ymateb i heriau cyfoes tra'n llunio dyfodol gofal.

Mae'r tair blaenoriaeth a gyflwynir yn rhan nesaf y ddogfen hon yn amlygu swyddogaeth hanfodol addysg o ran cefnogi twf proffesiynol, arweinyddiaeth, arloesedd, a gofal tosturiol wedi'i hysbysu gan dystiolaeth. O'u cymryd gyda'i gilydd, maent yn ddull cydlynol sy'n gosod addysg fel y prif ysgogwr o broffesiwn nyrsio cynaliadwy sy'n barod ar gyfer y dyfodol yng Nghymru.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd yn agos â themâu *Gweledigaeth y Prif Swyddog Nyrsio ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru* (2025–2030), sy'n pwysleisio dysgu ac ymarfer integredig, datblygiad proffesiynol parhaus, arweinyddiaeth seiliedig ar werthoedd, a gweithlu gwydn, wedi'i rymuso. Mae'r gyfatebiaeth hon yn atgyfnerthu ymrwymiad cenedlaethol a rennir o hyrwyddo ymarfer nyrsio rhagorol, tosturiol, ac arloesol, ac yn sicrhau bod argymhellion RCN Cymru yn ategu uchelgeisiau system ehangach.

# Blaenoriaethau ac argymhellion

Wedi'i gosod o fewn y cyd-destun strategol hwn, mae'r adran ganlynol yn cyflwyno tair blaenoriaeth rhyngddibynnol y bwriedir iddynt gefnogi proffesiwn nyrsio cynaliadwy sy'n barod ar gyfer y dyfodol yng Nghymru. Mae'n rhaid i addysg nyrsio yng Nghymru gael ei deall fel ecosystem gysylltiedig yn hytrach na chyfres o elfennau ar wahân. Mae'r tair blaenoriaeth a amlinellir yn y ddogfen hon sef cryfhau dysgu a myfyrio proffesiynol, meithrin proffesiwn wedi'i hysbysu gan ymchwil, a chreu gweithlu hyblyg a gwydn yn hynod ryngddibynnol ac ar y cyd yn ffurfio sylfaen proffesiwn nyrsio cynaliadwy. Maent hefyd yn adeiladu'n uniongyrchol ar themâu craidd *Strategaeth Addysg RCN Cymru* (2016), a bwysleisiodd dysgu gydol oes, addysg sy'n gyson ag ymchwil, a gweithlu hyderus a thosturiol sydd wedi'i baratoi i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

Mae'r blaenoriaethau newydd yn ymestyn y themâu hyn ac yn eu rhoi ar sail gyfoes ar gyfer y dirwedd polisi a gwasanaeth bresennol yng Nghymru, gan ymateb i gymhlethdod clinigol cynyddol, trawsnewid digidol, a phwysau gweithlu parhaus.

| Blaenoriaeth 1: | Blaenoriaeth 2: | Blaenoriaeth 3: |
|---|---|---|
| **Cryfhau dysgu, myfyrio a datblygiad proffesiynol ar draws y gweithlu nyrsio** | **Meithrin proffesiwn wedi'i hysbysu gan ymchwil** | **Creu gweithlu nyrsio hyblyg, gwybodus, a gwydn** |

Mae myfyrio a goruchwylio adferol yn meithrin hunaniaeth broffesiynol, gallu emosiynol, ac ymarfer tosturiol sy'n ganolog i weledigaeth 2016 o broffesiwn wedi'i ysgogi gan werthoedd. Mae ymgysylltu ag ymchwil yn cryfhau tystiolaeth mewn arweinyddiaeth wedi'i ffurfio ac ymarfer ysgolheigaidd, gan barhau'r cyfeiriad strategol a bennwyd yn y strategaeth gynharach. Mae gwydnwch a hyblygrwydd y gweithlu yn sicrhau y gall nyrsys roi'r galluoedd myfyriol ac wedi'u hysbysu gan ymchwil hyn ar waith ar draws modelau gofal amrywiol a newidiol. Gyda'i gilydd, mae'r tair blaenoriaeth yn creu 'edefyn euraid' o dosturi, uniondeb proffesiynol, dysgu gydol oes, ac arweinyddiaeth wedi'i hysbysu gan dystiolaeth sy'n cefnogi llesiant, yn cryfhau gallu gwneud penderfyniadau, ac yn galluogi gofal diogel, o ansawdd uchel ar draws taith gyrfa nyrs.

# Blaenoriaeth 1:

## Cryfhau dysgu, myfyrio a datblygiad proffesiynol ar draws y gweithlu nyrsio

Mae gofal nyrsio o ansawdd uchel yn dibynnu ar weithlu sy'n cael ei gynorthwyo i ddysgu, myfyrio, a thyfu drwy gydol eu gyrfaoedd. Mewn cyd-destun o aciwtedd sy'n codi, cymhlethdod cynyddol, a llafur emosiynol sylweddol, mae angen mwy na gallu technegol ar nyrsys: mae angen crebwyll proffesiynol, gwydnwch emosiynol, ac amgylcheddau sy'n galluogi ymarfer myfyriol arnynt. Mae cryfhau dysgu proffesiynol yn hanfodol felly, nid yn unig i ddatblygiad unigol ond i gynnal proffesiwn nyrsio tosturiol, diogel a ysgogir gan werthoedd.

Ailddilysu, goruchwyliaeth glinigol adferol, a mentora a hyfforddi yw craidd y seilwaith dysgu proffesiynol hwn. Pan fydd y mecanweithiau hyn yn cael eu hymwreiddio'n gyson trwy amser neilltuedig, hwyluso medrus, a llywodraethu sefydliadol cryf, maent yn helpu nyrsys i wneud synnwyr o'u profiadau, i brosesu gofynion seicolegol ymarfer, ac i ddatblygu hyder a gallu. Mae'r manteision hyn yn ymestyn y tu hwnt i unigolion, maent yn gwella'r ffordd y mae timau yn gweithredu, yn cefnogi'r gallu i gadw staff, ac yn datblygu diwylliannau o ymholi a gwelliant.

Mae dull strategol a chydlynol o ymdrin â dysgu proffesiynol yn hollbwysig felly. Trwy ymwreiddio'r cymhorthion hyn ar draws pob cam gyrfaol a phob lleoliad, gall Cymru feithrin gweithlu nyrsio sy'n fyfyriol, yn iach yn emosiynol, ac wedi'i baratoi i arwain newid, i ysgogi gwelliant i wasanaethau, ac i gynnal safonau gofal uchel.



> Mae gofal nyrsio o ansawdd uchel yn dibynnu ar weithlu sy'n cael ei gynorthwyo i ddysgu, myfyrio a thyfu.

## Argymhellion: ailddilysu

1.1 Gosod ailddilysu fel proses dysgu proffesiynol ystyrlon yn hytrach nag ymarfer pennaf weinyddol neu a ysgogir gan gydymffurfiad.

1.2 Sicrhau bod systemau sefydliadol yn darparu amser neilltuedig, a mynediad at ddysgu myfyriol o ansawdd uchel i gefnogi ailddilysu ystyrlon.

1.3 Syntheseiddio gwybodaeth o ailddilysu yn weithredol i hysbysu addysg, cynllunio'r gweithlu, a gwella gwasanaethau.

1.4 Ymwreiddio ymarfer myfyriol fel disgwyliad safonol ar draws pob cam gyrfa i gryfhau crebwyll proffesiynol, gofal tosturiol, a hyblygrwydd.

## Argymhellion: goruchwyliaeth adferol

2.1 Integreiddio egwyddorion goruchwyliaeth adferol o'r cyfnod cyn cofrestru ymlaen i ddatblygu dealltwriaeth o ymarfer myfyriol a llesiant emosiynol wedi'i alluogi gan y system.

2.2 Blaenoriaethu goruchwyliaeth adferol yn weithredol drwy amser neilltuedig, amgylcheddau addas, a datblygu goruchwylwyr medrus.

2.3 Sefydlu swyddi arweinyddiaeth a llywodraethu strategol i sicrhau cysondeb, i fesur effaith, ac i atgyfnerthu goruchwyliaeth adferol fel rhan graidd o ddiwylliant y gweithlu.

2.4 Buddsoddi mewn datblygu ac ehangu'r swydd Eiriolwr Nyrsio Proffesiynol i ddatblygu capasiti sefydliadol, i gryfhau strwythurau goruchwylio, ac i alluogi'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth adferol i'r holl staff.

## Argymhellion: mentora a hyfforddi

3.1 Ymwreiddio hyfforddi a mentora mewn ymarfer bob dydd fel elfennau hanfodol o reoli tosturiol a datblygiadol, gan greu diwylliant lle mae adborth yn gefnogol, yn brydlon, ac yn canolbwyntio ar ddysgu, datblygu gallu, a llesiant staff.

3.2 Sicrhau bod hyfforddi a mentora ar gael i bob nyrs ar draws cyfnodau gyrfaol, gan gefnogi twf hunan-gyfeiriedig, annibyniaeth broffesiynol, a chyfnodau pontio gyrfaol.

3.3 Darparu amser neilltuedig ac adnoddau i fentoriaid, hyfforddwyr, a dysgwyr i ddatblygu perthnasoedd, i ddatblygu sgiliau, ac i gymryd rhan mewn dysgu myfyriol.

3.4 Mabwysiadu dulliau dysgu cydweithredol ar draws timau a phroffesiynau â pharatoad cadarn ar gyfer staff sy'n gweithio fel goruchwylwyr ac aseswyr.

3.5 Monitro ansawdd a chanlyniadau drwy adborth a data gweithlu i hysbysu datblygiad arweinyddiaeth, cynllunio'r gweithlu, a thrawsnewid strategol.

# Blaenoriaeth 2:

## Meithrin proffesiwn wedi'i hysbysu gan ymchwil

Mae ymarfer nyrsio diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol yn dibynnu ar weithlu sy'n hyderus yn defnyddio, yn dehongli, ac yn cynhyrchu tystiolaeth. Wrth i iechyd a gofal cymdeithasol ddod yn fwyfwy cymhleth a data gyfoethog, nid yw'r gallu i ddeall gwaith ymchwil, rhoi tystiolaeth ar waith, a chyfrannu at welliant yn ddewisol, mae'n ganolog i ymarfer nyrsio cyfoes. Mae datblygu proffesiwn wedi'i hysbysu gan ymchwil yn sicrhau y gall nyrsys arfarnu gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg yn feirniadol, lleihau amrywiadau di-alw-amdano, a chyfrannu at fodelau gofal sy'n gwella canlyniadau i unigolion a chymunedau.

Mae cyflawni'r uchelgais hwn yn gofyn am system lle mae addysg, ymchwil, ac ymarfer clinigol yn cyd-fynd â'i gilydd yn agos. Bydd datblygu gallu ymchwil wedi'i hysbysu gan ymchwil, a sgiliau gwella ansawdd ar draws y continwwm gyrfaol llawn yn sicrhau bod tystiolaeth yn symud yn gyflymach i ymarfer. Pan fydd nyrsys yn cael eu cefnogi fel defnyddwyr, cyfranwyr, ac arweinwyr ymchwil, gallant lunio dyluniad gwasanaethau, datblygu tegwch, ac ysgogi arloesedd ar draws y system.

Mae'r argymhellion isod yn hanfodol i hyn: rhuglder digidol a data, partneriaethau academaidd clinigol cryf, a swyddi uwch a lefel ymgynghorol sy'n gwneud ymchwil yn ganolog i ymarfer. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu amgylchedd lle mae ymchwil wedi'i ymwreiddio mewn gofal bob dydd, gan gryfhau cyfraniad y proffesiwn at wella'r system iechyd a gofal yng Nghymru.



> Pan fydd nyrsys yn cael eu cefnogi fel defnyddwyr, cyfranwyr, ac arweinwyr ymchwil, gallant ysgogi arloesedd.

## Argymhellion: rhuglder digidol a data

1.1 Integreiddio gwybodeg ar draws cwricwla nyrsio i sicrhau dealltwriaeth o'r dull a ysgogir gan ddata a'i swyddogaeth mewn gofal diogel ac effeithiol.

1.2 Sicrhau bod sefydliadau yn darparu dysgu strwythuredig ar gyfer nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth nyrsio sy'n cwmpasu llywodraethu gwybodaeth, systemau clinigol cadw cofnodion, codio, a rhannu data.

1.3 Datblygu sgiliau cyd-ddylunio digidol ym maes addysg, gan baratoi staff i gydweithredu â datblygwyr systemau i sicrhau offerynnau digidol sy'n addas i'r diben ac yn cyd-fynd ag ymarfer nyrsio.

1.4 Cryfhau arweinyddiaeth nyrsio ym maes trawsnewid digidol i ddylanwadu ar ddylunio, gweithredu, a gwerthuso systemau digidol sy'n gwella ymarfer ac o fudd i gleifion a staff.

## Argymhellion: partneriaethau academaidd clinigol

2.1 Sefydlu mecanweithiau cynllunio'r gweithlu i nodi'r nifer a'r mathau o swyddi academaidd clinigol sydd eu hangen i ysgogi ymchwil, arloesedd, a gwelliant gwasanaethau.

2.2 Rhoi egwyddorion Follett (Cyflogwyr y GIG, 2024) ar waith, gan bwysleisio gweithio ar y cyd rhwng prifysgolion a byrddau iechyd ar gyfer penodi a rheoli academyddion clinigol.

2.3 Sefydlu modelau cynaliadwy â chyllid pwrpasol i ailadeiladu arweinyddiaeth academaidd a gallu proffesoriaeth i ddatblygu piblinell o nyrsys â chymwysterau ôl-raddedig a phrofiad o oruchwyliaeth ymchwil.

2.4 Ymwreiddio swyddi academaidd clinigol mewn byrddau iechyd, â Chyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol yn arwain rhwydweithiau i integreiddio ymchwil ac arloesedd ar draws y system.

2.5 Comisiynu ac ariannu addysg ôl-raddedig (er enghraifft, MSc Ymchwil Glinigol, Doethuriaethau Proffesiynol) sy'n cyd-fynd â rhaglenni ymholi sy'n canolbwyntio ar wyddor gwella a thrawsnewid gwasanaethau.

## Argymhellion: swyddi nyrsio uwch ac ymgynghorol

3.1 Datblygu dull cadarn o gynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg ar gyfer ymarfer uwch a lefel ymgynghorol, wedi'i seilio ar fethodoleg eglur sy'n gyson yn genedlaethol i benderfynu ar faint, siâp a dosbarthiad gofynnol swyddi ledled Cymru, wedi'u cysoni ag angen iechyd y boblogaeth a thrawsnewid gwasanaethau.

3.2 Safoni rhaglenni ar gyfer ymarfer uwch, gan alluogi nyrsys i weithio'n hyderus ar draws lleoliadau a rheoli gofal holistaidd cymhleth tra'n dangos arweinyddiaeth glinigol ar draws bob un o'r pedair colofn.

3.3 Sicrhau bod pob swydd nyrsio uwch ac ymgynghorol wedi'i seilio ar ddisgwyliadau eglur i arwain, cynhyrchu, a gweithredu gwaith ymchwil, gan ysgogi arloesedd a gwelliant wedi'u hysbysu gan dystiolaeth mewn gwasanaethau.

# Blaenoriaeth 3:

## Creu gweithlu nyrsio hyblyg, gwybodus, a gwydn

Nid rhinwedd unigol yw gwydnwch nyrsio, ond canlyniad system. I nyrsys ffynnu mewn amgylcheddol gofal cynyddol gymhleth, mae'n rhaid dylunio addysg i ddatblygu gwydnwch ar lefelau sefydliadol a system drwy staffio diogel, diwylliannau sy'n ddiogel yn seicolegol, strwythurau goruchwylio effeithiol, a mynediad teg ar addysg o ansawdd uchel. Pan fydd y sylfeini hyn wedi'u gosod, gall y gweithlu addasu i newid, cynnal llesiant, a darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws pob lleoliad.

I gyflawni hyn, mae nyrsys angen llwybrau gyrfaol strwythuredig, arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol, ac addysg a hyfforddiant sy'n cyd-fynd ag anghenion gwasanaeth byd go iawn. Mae hyn yn cynnwys galluogi symudedd ar draws sectorau, sicrhau parodrwydd ar gyfer swyddi mewn modelau gofal sy'n dod i'r amlwg, a chefnogi dyrchafiad i swyddi estynedig, uwch, ac ymgynghorol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg gyd-fynd yn agos â'i gilydd, i gael eu hysbysu gan ddata cywir, ac i fod yn ymatebol i anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.

Gyda'i gilydd, mae'r argymhellion hyn yn sicrhau bod Cymru yn datblygu gweithlu nyrsio sy'n hyderus, yn abl, ac wedi'i gefnogi, un sy'n gallu ymateb i bwysau presennol, rhagweld heriau'r dyfodol, ac arwain y ddarpariaeth o ofal cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl Cymru.



> Mae Cymru angen gweithlu nyrsio sy'n hyderus, yn abl, ac wedi'i gefnogi

## Argymhellion: datblygiad gyrfaol a pharatoad ar gyfer swyddi

1.1 Sicrhau bod egwyddorion preceptoriaeth yn cael eu hintegreiddio i raglenni strwythuredig ar gyfer pob nyrs sydd newydd gymhwyso, â safonau a disgwyliadau eglur ar draws bob sector.

1.2 Datblygu addysg ôl-raddedig gydgysylltiedig, wedi'i darparu'n gydweithredol ar draws sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr, gan gefnogi datblygiad gyrfaol ar draws bob un o'r pedwar maes nyrsio.

1.3 Dylunio addysg ar bob lefel i gefnogi modelau gofal newydd, gan gynnwys iechyd gwledig, iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a gofal cymunedol, gan ymgorffori dulliau iechyd y boblogaeth.

1.4 Sicrhau mynediad teg at addysg i nyrsys sy'n gofalu am grwpiau poblogaeth wedi'u diffinio (fel pobl sy'n byw gyda dementia, plant a theuluoedd, a'r rhai ag anghenion iechyd meddwl neu anableddau dysgu) i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y tu hwnt i ffiniau meysydd traddodiadol.

1.5 Hwyluso cyfleoedd i staff gael profiad ar draws gwahanol wasanaethau, gan gael gwared ar rwystrau diangen i symudedd mewnol.

## Argymhellion: arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol

2.1 Ymwreiddio arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol ar draws bob lefel o gwricwla nyrsio, â chanlyniadau dysgu wedi'u diffinio yn cwmpasu empathi, deallusrwydd emosiynol, a gallu myfyriol ochr yn ochr â sgiliau clinigol a thechnegol.

2.2 Rhoi esiampl o arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol yn gyson ar draws addysg ac ymarfer, ag addysgwyr, mentoriaid, a nyrsys uwch yn cael eu cefnogi i arddangos yr ymddygiadau hyn mewn ymarfer dyddiol.

2.3 Comisiynu datblygiad arweinyddiaeth strwythuredig a rhaglenni DPP sy'n cannolbwyntio ar arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol, gan ymgorffori mentora, hyfforddi, ymarfer myfyriol, a dysgu cymheiriaid, a chysylltu cyfranogiad â datblygiad ac ailddilysu proffesiynol.

2.4 Creu a chynnal amgylcheddau dysgu seicolegol ddiogel a chynhwysol sy'n hyrwyddo parch, cefnogaeth, a'r gallu i godi pryderon.

2.5 Cysoni addysg arweinyddiaeth dosturiol â blaenoriaethau cenedlaethol a lefel system, gan gynnwys Egwyddorion Arweinyddiaeth GIG Cymru, fframweithiau llesiant, a strategaethau cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant.

2.6 Gwerthuso a chryfhau galluogwyr arweinyddiaeth dosturiol dros amser, gan ddefnyddio gwybodaeth i hysbysu gwelliant parhaus i lesiant staff, cadw, a chanlyniadau cleifion.

## Argymhellion: cynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg

3.1 Datblygu a chomisiynu addysg i gefnogi datblygiad swyddi integredig a thraws-sector, gan flaenoriaethu sgiliau a chymwyseddau sy'n galluogi nyrsys i weithio'n effeithiol ar draws ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol.

3.2 Cynllunio'n strategol ar gyfer cymunedau wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys ardaloedd gwledig ac anghysbell, poblogaeth Cymraeg eu hiaith, a grwpiau eraill sydd mewn perygl, gan ddefnyddio llwybrau addysg a ddarperir yn lleol ac sydd wedi'u galluogi'n ddigidol. Mae'n rhaid i'r gwaith cynllunio hwn sicrhau bod comisiynu addysg yn adlewyrchu anghenion iaith Gymraeg, yn cefnogi'r Cynnig Rhagweithiol mewn amgylcheddau dysgu ymarfer, ac yn datblygu gallu ieithyddol a diwylliannol ar draws y gweithlu nyrsio.

3.3 Cryfhau ac amddiffyn piblinellau gweithlu mewn meysydd o angen uchel, fel nyrsio anabledd dysgu ac iechyd meddwl, trwy gymhellion wedi'u targedu, lleoedd wedi'u hariannu, llwybrau gyrfaol, datblygiad ôl-gofrestru, a rhaglenni dychwelyd i ymarfer.

3.4 Datblygu gallu rhannu data a dadansoddol system gyfan i sicrhhau bod cynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg yn seiliedig ar ddeallusrwydd cywir, amser real ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

3.5 Sicrhau bod y cynnig bwrsariaeth myfyrwyr yn cefnogi cynaliadwyedd a thegwch ariannol, gan alluogi mynediad i bob dysgwr a lleihau cyfraddau gadael.

3.6 Comisiynu addysg hyblyg, gymysg, ac ymatebol sy'n cyfuno dysgu wyneb yn wyneb, digidol, a seiliedig ar ymarfer, sy'n gallu addasu i ofynion gwasanaeth sy'n dod i'r amlwg.

3.7 Ymwreiddio cydweithrediad a chysondeb lefel system mewn gwaith cynllunio'r gweithlu trwy fecanweithiau wedi'u ffurfioli sy'n sicrhau bod AaGIC, sefydliadau addysg uwch, byrddau iechyd, a phartneriaid gofal cymdeithasol yn rhannu data, yn cydgysylltu comisiynu, ac yn cysoni darpariaeth addysg ag angen y boblogaeth.

# Casgliad

Mae addysg yn ysgogiad pendant ar gyfer llunio'r proffesiwn nyrsio yng Nghymru, ac mae RCN Cymru wedi ymrwymo i arwain yr agenda hon gydag uchelgais ac eglurder. Mae'r blaenoriaethau a'r argymhellion a gyflwynir yn y ddogfen hon yn dangos sut y mae'n rhaid defnyddio addysg i gryfhau gallu proffesiynol, i ddatblygu gwydnwch, ac i alluogi nyrsys i ddarparu gofal diogel, tosturiol, wedi'i hysbysu gan dystiolaeth ar draws bob lleoliad. Bydd cyflawni hyn yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig ar draws y system gyfan, ag ailddilysu, goruchwyliaeth, ymchwil, datblygu arweinyddiaeth a chynllunio'r gweithlu yn gweithio gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân.

Bydd RCN Cymru yn parhau i eirioli dros system addysg sy'n fyfyriol, wedi'i hysbysu gan ymchwil ac yn ymatebol i anghenion y gwasanaeth. Ond mae'r ddogfen hon hefyd yn arf i aelodau. Rydym yn annog nyrsys ar bob lefel i'w defnyddio i ddylanwadu yn lleol: i hysbysu sgyrsiau gyda chyflogwyr, i herio amgylcheddau dysgu anniogel neu anghefnogol, i gryfhau trefniadau preceptoriaeth a goruchwyliaeth, ac i lunio gwaith cynllunio'r gweithlu ac addysg lleol. Gall aelodau ddefnyddio'r blaenoriaethau a'r argymhellion i ddwyn sefydliadau i gyfrif, i wella mynediad at ddatblygiad proffesiynol, ac i eirioli dros yr adnoddau a'r strwythurau sy'n angenrheidiol ar gyfer gofal o ansawdd uchel.

Cyflawni yw'r rheidrwydd nawr. Bydd RCN Cymru yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid ar draws llywodraeth, gweithlu ac ymarfer i ysgogi gweithrediad ac i herio pan na fydd y cynnydd yn ddigonol. Gydag arweinyddiaeth ar y cyd, aelodau wedi'u grymuso, a buddsoddiad parhaus, gall addysg ddod yn rym ysgogol ar gyfer cynaliadwyedd y gweithlu, boddhad proffesiynol, a chanlyniadau gwell i bobl a chymunedau ledled Cymru. Mae RCN Cymru yn dal i fod yn benderfynol o arwain y gwaith hwn ac i gefnogi pob nyrs a gweithiwr cymorth nyrsio i lunio dyfodol eu proffesiwn.

# Rhestr cyfeiriadau


Y Cyngor Deoniaid Iechyd (2025) *Academic Educator Workforce Survey Reports*. Ar gael yn: **councilofdeans.org.uk/2025/07/new-reports-council-of-deans-of-health-unveils-key-findings-on-nursing-midwifery-and-ahp-educator-challenges-and-opportunities** (Gwelwyd: 21 Hydref 2025).

Y Cyngor Deoniaid Iechyd (2026) *Principles for the use of generative AI in healthcare education*. Ar gael yn: **councilofdeans.org.uk/resource/principles-for-the-use-of-generative-ai-in-healthcare-education/** (Gwelwyd: 16 Chwefror 2026).

Dall'Ora C, Saville C, Rubbo B, Turner L, Jones J a Griffiths P (2022) Nurse staffing levels and patient outcomes: A systematic review of longitudinal studies. *International Journal of Nursing Studies*, 134. **doi.org/10.1016/j.ijnurstu.2022.104311** .

Edwards M E, Bodger O, Brown M, Roberts L, Roberts L D, Davies J S a Morgan A H (2025) The experience and perception of first language usage in healthcare: the Welsh perspective [wedi'i ragargraffu]. *medRxiv*. **doi.org/10.1101/2025.02.20.25322596** (Gwelwyd: 21 Hydref 2025).

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2020) Cymru Iachach: *Ein strategaeth gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Ar gael yn: **heiw.nhs.wales/files/a-healthier-wales-our-workforce-strategy-for-health-and-social-care/** (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2023a) *Fframwaith proffesiynol ar gyfer ymarfer clinigol estynedig, uwch ac ymgynghorol yng Nghymru*. Ar gael yn: **heiw.nhs.wales/ aagic.gig.cymru/gweithlu/trawsnewid-gweithlu/moderneiddior-gweithlu/fframwaith-proffesiynol/and-consultant-clinical-practice/** (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2023b) *Cadw a gwerthfawrogi nyrsys o fewn y GIG yng Nghymru*. Ar gael yn: **aagic.gig.cymru/diweddariadau/newyddion/cadw-a-gwerthfawrogi-nyrsys-o-fewn-y-gig-yng-nghymru/** (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2025) *Cynllun gweithlu nyrsio strategol*. Ar gael yn: **aagic.gig.cymru/gweithlu/strategaeth-a-chynlluniau-gweithlu/cynllun-gweithlu-nyrsio-strategol/** (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Cyflogwyr y GIG (2024) *Implementing Follett principles for health and care organisations: Guidance for HEIs and NHS provider organisations*. Ar gael yn: **nhsemployers.org/system/files/2024-11/Follett-principles-guidance-for-HCPs.pdf** (Gwelwyd: Mawrth 2026).

*Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (anaw 5)*. Ar gael yn: **legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5/contents/welsh** (Gwelwyd: 20 Hydref 2025).

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2018b) *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio*. Ar gael yn: **nmc.org.uk/standards/code/** (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2025) *Egwyddorion ar gyfer ymarfer uwch*. Ar gael yn: **nmc. org.uk/standards/guidance/advanced-practice-principles** (Gwelwyd: 10 Chwefror 2026).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (1928) *Royal Charter of the Royal College of Nursing*. Llundain: Y Coleg Nyrsio Brenhinol.

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2016) *Strategaeth Addysg: Dyfodol Addysg Nyrsio yng Nghymru*. Y Coleg Nyrsio Brenhinol.

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2021) *Definition and principles of nursing*. Llundain: Y Coleg Nyrsio Brenhinol. Ar gael yn: **rcn.org.uk/Professional-Development/Definition-and-principles-of-nursing** (Gwelwyd: 21 Hydref 2025).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2023a) *Five-year strategy*. Ar gael yn: **rcn.org.uk/ Professional-Development/publications/rcn-five-year-strategy-uk-pub-010-891** (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2023c) *Progress and challenge in delivering safe and effective care*. Ar gael yn: **rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-progress-challenge-2023-welsh-uk-pub-011-191** (Gwelwyd: 20 Hydref 2025).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2024a) *Levels of nursing*. Ar gael yn: **rcn.org.uk/Professional-Development/Levels-of-nursing** (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2025a) *Defining nursing support workers and their level descriptors*. Ar gael yn: **rcn.org.uk/Professional-Development/Defining-nursing-support-workers-and-their-level-descriptors** (Gwelwyd: 21 Hydref 2025).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2025b) *RCN position on registered nurse substitution*. Ar gael yn: **rcn.org.uk/About-us/Our-Influencing-work/Position-statements/rcn-position-on-registered-nurse-substitution** (Gwelwyd: 20 Hydref 2025).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2025c) *RCN Research Strategy*. Ar gael yn: **RCN Research Strategy Publications | Y Coleg Nyrsio Brenhinol** (Gwelwyd ar 09 Chwefror 2026).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2025d) *Safe staffing: evaluating the evidence for mandatory nurse-to-patient ratios*. Ar gael yn: **rcn.org.uk/Professional-Development/publications/RCN-Safe-staffing-uk-pub-012-306** (Gwelwyd ar 09 Chwefror 2026).

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2025e) *The Nurse Educator Workforce in Higher Education in England*. Ar gael yn: **rcn.org.uk/Professional-Development/PDFs/the-nurse-educator-workforce-in-higher-education-in-england** (Gwelwyd ar 09 Chwefror 2026).

Rony MKK, Parvin MR a Ferdousi S (2024) *Advancing nursing practice with artificial intelligence: Enhancing preparedness for the future*. Nursing Open, 11(1). **doi.org/10.1002/nop2.2070** .

Ruksakulpiwat S, Thorngthip S, Niyomyart A, Benjasirisan C, Phianhasin L, Aldossary H, Ahmed BH a Samai T (2024) A systematic review of the application of artificial intelligence in nursing care: Where are we, and what's next? *Journal of Multidisciplinary Healthcare*, 17, tudalennau 1603–1616. **doi.org/10.2147/JMDH.S459946** .

Gofal Cymdeithasol Cymru (2024) *Cynllun cyflawni gofal cymdeithasol 2024 i 2027*. Ar gael yn: **socialcare.wales/about-us/workforce-strategy/social-care-delivery-plan-2024-to-2027** (Gwelwyd: 17 Tachwedd 2025).

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* 2015 (anaw 2). Ar gael yn: **legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents** (Gwelwyd: 20 Hydref 2025).

Llywodraeth Cymru (2021a) *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf (Gwelwyd ar 10 Hydref 2025).

Llywodraeth Cymru (2021b) *Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu: 2021 i 2026*. Ar gael yn: llyw.cymru/strategaeth-cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant-y-gweithlu-2021-i-2026-htmlto-2026-html (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Llywodraeth Cymru (2022) *Mwy na geiriau: Cynllun pum mlynedd 2022 i 2027*. Ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdfaction-plan-2022-2027.pdf (Gwelwyd: 20 Hydref 2025).

Llywodraeth Cymru (2023) *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu: Mynd i'r Afael â Heriau Gweithlu GIG Cymru*. Ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-01/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-ar-gyfer-y-gweithlu.pdf (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Llywodraeth Cymru (2024a) *Preceptoriaeth nyrsio a goruchwyliaeth glinigol adferol*. Ar gael yn: Preceptoriaeth nyrsio a goruchwyliaeth glinigol adferol: datganiad sefyllfa (WHC/2024/012) | LLYW.CYMRU (Gwelwyd: 20 Hydref 2025).

Llywodraeth Cymru (2024b) *Dyfodol y Gweithlu Nyrsio Band 4 yng Nghymru: crynodeb*. Ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-03/dyfodol-y-gweithlu-nyrsio-band-4-yng-nghymru-crynodeb-2024.pdf (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Llywodraeth Cymru (2025a) *Cynllun gweithredu strategol ar gyfer meithrin gallu ymchwil ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru*. Ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-06/gwella-sgiliau-ymchwil-ar-gyfer-nyrsio-bydwreigiaeth-a-phroffesiynau-perthynol-iechyd.pdf (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Llywodraeth Cymru (2025b) *Gweledigaeth Strategol ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth: 2025 i 2030*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-11/gweledigaeth-strategol-ar-gyfer-nyrsio-a-bydwreigiaeth-2025-i-2030.pdf (Gwelwyd ar 12 Tach. 2025).

West M, Bailey S a Williams E (2020) *The Courage of Compassion: Supporting Nurses and Midwives to Deliver High-Quality Care*. The King's Fund. Ar gael yn: kingsfund.org.uk/insight-and-analysis/reports/courage-compassion-supporting-nurses-midwives. (Gwelwyd: 20 Hydref 2025).

Sefydliad Iechyd y Byd (2025) *State of the world's nursing report 2025*. Ar gael yn: who.int/publications/i/item/9789240110236 (Gwelwyd: 10 Hydref 2025).

Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys a nyrsio, yn hybu rhagoriaeth wrth ymarfer ac yn llunio polisïau iechyd

RCN ar-lein
**rcn.org.uk**

RCN Uniongyrchol
**rcn.org.uk/direct**
0345 772 6100

Cyhoeddwyd gan:
RCN Cymru (Caerdydd),
Tŷ Maeth,
Rhodfa Ddwyreiniol Brenin
George V, Caerdydd CF14 4XZ

0345 772 6100
welsh.board@rcn.org.uk
communicationswales@rcn.org.uk

Mawrth 2026
Cod y cyhoeddiad: 012 576

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales